**CYNGOR BRO MACHNO**

Cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar 16eg o Fai 2018 yn Festri Salem am 7.30

**Presennol:** Dafydd Gwyndaf (Cadeirydd), Colin Jones, Eifion Davies, Lyn McFadden, Siân Anwyl Jones, Claire Roberts, ac Eryl Owain ynghyd â'r clerc, Elfed Williams.

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Dewi Jones a Geraint Thomas.

**Cofnodion:** Derbyniwyd cofnodion cyfarfod 8 Mawrth 2018 fel rhai cywir, Sian Anwyl yn cynnig a Claire Roberts yn eilio.

**Materion yn codi:**

**Toiledau:** Mae arwyddion a rhwystrau i atal parcio o flaen y toiledau wedi eu gosod ond nid yw'r Cyngor Sir wedi cwblhau'r tosglwyddiad cyfreithiol. Penderfynwyd cysylltu eto â'r Cyngor Sir gan fod y sefyllfa'n gwbl annerbyniol.

**Loriau trymion ger cyffordd y Felin Wlân:** Cafwyd adroddiad o'r cyfarfod a gafwyd ar 14 Mai efo Cyfoeth Naturiol Cymru i ystyried pedwar cynllun gwahanol i ddelio â'r broblem o gludo coed. Roedd CNC yn ffafrio gwella'r ffyrdd oddi mewn i'r goedwig fel y gallai mwy o loriau ddod allan heibio Tanrallt i'r A487. Penderfynwyd mai dewis y Cyngor Cymuned fel ateb tymor hir fyddai codi pont newydd dros afon Machno i ymuno â'r B4406 ger mynedfa ffarm y Penrhyn.

**Llwybr rhwng Benar a Blaen Ddol:** Cadarnhawyd bod gwaith wedi ei wneud gan y Parc Cenedlaethol ac y bydd camfa newydd yn cael ei gosod ar y terfyn.

**Cwynion am adeiladau:** Yn dilyn ymholiadau gan y clerc, cafwyd adroddiad bod posibilrwydd y bydd gwelliannau i London House a bod perchnogion hen adeilad cymdeithas yr *Odd Fellows* yn ystyried dyfodol yr adeilad.

**Materion Ariannol:**

**Mantolen Ariannol 2017-18**: Cyflwynwyd y fantolen, wedi ei harchwilio gan gwmni J. Llywelyn Hughes gan y clerc. Derbyniwyd hi, Eryl Owain yn cynnig a Claire Roberts yn eilio.

**Taliadau:** Cadarnhawyd taliadau o £200 i Gyllid a Thollau a £180 i J. Llywelyn Hughes, Eryl Owain yn cynnig a Lyn McFadden yn eilio.

**Materion Cynllunio:**

**Cais i adeiladu estyniad i Tan-rhiw:** Penderfynwyd cyflwyno'r sylwadau canlynol i sylw Pwyllgor y Parc Cenedlaethol sef fod pryder am natur y cynlluniau. Ymddengys bod posibilrwydd y gallai gael ei rannu'n ddau dŷ, ac un efallai'n cael ei osod felt ŷ gwyliau.

**Materion Eraill:**

**Ffyrdd –** Tynnwyd sylw at gyflwr anfoddhaol ffordd Hafod-y-rhedwydd a bod angen sylw brys i ddelio â'r tyllau.

Mae pryder bod coed yn tyfu ger Pont Waterloo ym Metws-y-coed yn ei gwneud yn anodd i rai sy'n dod lawr yr A5 i weld cerbydau'n croesi'r bont. Penderfynwyd cysylltu â'r Cyngor Sir.

**Cynllun Chwarae Haf:** Cadarnhawyd y bydd y cynllun i gynnig cyfleoedd i blant yn weithredol ym Mhenmachno a Cwm. Bydd yn bosib defnyddio'r cae gyferbyn â Chanolfan Seilo, trwy garedigrwydd y perchennog.

**Llwybr y Waen:** Penderfynwyd bod angen symud y stepiau sy'n arwain o stad Bron-y-waen i Lwybr y Waen er mwyn ei gwneud yn hwylus i ddefnyddwyr cadair olwyn ac ati. Hefyd bod angen gwaith trwsio a chynnal a chadw.

**Mynwent Arwelfa:** Cafwyd adroddiad fod tyrchod yn y fynwent. Penderfynwyd derbyn cynnig unigolyn oedd yn gwirfoddoli i ddelio â'r broblem.

**Ymddiswyddo:** Cafwyd wybod gan Colin Jones fod Dewi Jones yn cynnig ymddiswyddo. Penderfynwyd ei annog i ddal ati ond, os bydd yn ymddiswyddo, y byddai angen hysbysiad ysgrifenedig.